Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Canolfan Dysgu Cynnar Pobl Bach**

**Adeilad Myrddin**
**Heol Llangynnwr**
**Caerfyrddin**
**SA31 2BL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Chanolfan Dysgu Cynnar Pobl Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Pobl Bach Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 49 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ôl-gofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r plant yn ymgartrefu'n arbennig o dda, yn hapus iawn ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad yn fawr. Maent yn hyderus ac yn cael hwyl wrth chwarae gyda'u ffrindiau ac yn ffurfio cydberthnasau agos gyda'r staff. Mae gan y plant lawer o ddewis ac maent yn annibynnol iawn. Teimlant yn hynod o ddiogel a chânt gyfleoedd i ymlacio a datblygu sgiliau gwahanol.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymateb i anghenion y plant ac yn rhoi gofal cynnes a meithringar iddynt. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn dda iawn ac yn darparu ystod ddiddorol ac amrywiol o weithgareddau sy'n briodol i oedran yr holl blant sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda . Mae'r ystafelloedd chwarae yn olau ac yn fawr. Mae ystod dda o deganau, adnoddau ac offer yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant. Cafodd asesiadau risg eu gwella yn ystod yr arolygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn creu ethos cadarnhaol ac yn arwain y staff yn dda. Maent wedi ymrwymo i wella arferion er lles y plant. Fodd bynnag, mae angen gwella nifer fach o agweddau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaeth dda gyda rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn mewn modd eithriadol ac yn rhoi pwyslais cryf ar adael i'r plant reoli eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Gwrandewir ar y plant, a gwerthfawrogwyd pob ymdrech i gyfathrebu yn ystod yr arolygiad. Rhoddir ystyriaeth bwysig i anghenion y plant. Er enghraifft, rhoddwyd llawer o anogaeth i blentyn a oedd wedi cynhyrfu ychydig ac ymgartrefodd yn gyflym iawn.

Mae'r plant yn cael cysur o fod â chysylltiad agos â'r staff, gan wybod y bydd eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu. Mae'r plant hefyd wedi meithrin cysylltiadau cryf â phlant eraill ac mae'r rhyngweithio rhyngddynt yn gryf. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu cyfeillgarwch gyda phlant o ysgolion eraill ac maent yn sgwrsio â'i gilydd yn gyfforddus. Er enghraifft, buont yn trafod ym mha flwyddyn yr oeddent yn yr ysgol a beth oedd eu hoedran: '*Dwi'n bump'. 'Dwi'n chwech'. 'Dwi i bron yn chwech'*. Mae'r plant yn gefnogol i'w gilydd ac yn gofalu am ei gilydd. Er enghraifft, aeth un plentyn at y ffenest i wneud yn siŵr nad tad ei ffrind oedd wedi cyrraedd i'w gasglu. Roeddent yn llawn cyffro wrth glywed nad oedd yn amser iddynt fynd adref a oedd yn golygu y gallent barhau i chwarae gyda'u ffrindiau.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Cânt gyfleoedd ardderchog i chwarae a dysgu mewn lleoliad magwrol. Maent yn llawn cymhelliant i gychwyn eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, tra'n chwarae rôl, roedd dau blentyn yn cydweithio'n hynod o dda ac yn sgwrsio'n fodlon. Cymerodd un plentyn rôl yr athrawes gefnogol tra bod y llall yn gwrando'n astud ac yn tynnu lluniau cylchoedd. Mae'r plant yn hamddenol ac yn mynegi eu hunain yn arbennig o dda, a chânt ymateb effeithiol ac ystyrlon. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau mynychu ar ôl ysgol yn fawr ac yn cael cyfleoedd chwarae da iawn. Dywedodd un plentyn: '*Mae'n wych yma, mae gennym ni lawer o bethau i chwarae gyda nhw ac rydyn ni'n gwneud ffrindiau newydd'*. Roeddent yn canmol y staff a'r gofal a gânt. Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel, ac yn mynd at y staff gofal yn hyderus. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau o chwarae rhydd y tu mewn maent yn gofyn am gliter o wahanol liwiau ar gyfer eu gwaith crefft ac yn trafod yn hyderus y ffyrdd y gallant greu'r lliw porffor.

Mae gan y plant lais cryf. Mae'r plant yn dilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain yn gyson. Roeddent yn tylino toes yn hapus ac yn trafod y gwahanol siapiau a lliwiau y gallant eu defnyddio. Gofynnodd un plentyn, '*Gawn ni borffor yn lle*?' gydag aelod o staff yn ymateb drwy ddweud '*Fe gewch chi unrhyw liw rydych chi ei eisiau*.' Yna bu'r plant yn trafod pa liwiau y gallent eu defnyddio i wneud porffor. Yn ystod amser byrbryd, dewisodd y plant y pasta roeddent ei eisiau - gyda neu heb saws tomato.

Caiff y plant gyfleoedd cyffrous i ddod yn annibynnol a datblygu eu sgiliau trwy ystod dda o brofiadau chwarae. Rhoddir cyfrifoldebau i'r plant hŷn i ddatblygu eu hyder ac ymddwyn fel modelau rôl. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, mae'r plant hŷn yn falch o helpu'r plant iau ac yn dosbarthu'r cwpanau iddynt ac yn eu cynorthwyo gyda'u hanghenion. Mae'r plant

yn bwyta eu bwyd yn annibynnol, heb ffwdan. Mae'r blaengarwch ganddynt i roi min ar eu pensiliau yn annibynnol a chael gwared ar y naddion yn y bin pan fo angen.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn cydweithio'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn iach. Er enghraifft, wrth gasglu a danfon o'r ysgol, cymerir cofrestrau manwl bob tro. Mae gan yr holl staff gymwysterau cymorth cyntaf, yn trin plant yn briodol os ydynt yn cael damwain, yn cofnodi unrhyw ddamweiniau ar y system electronig ac yn rhannu'r manylion gyda rhieni ac yn sicrhau bod rhieni'n llofnodi'r cofnod.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau o fewn y lleoliad. Mae gweithdrefnau ar waith sy'n hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu hunain yn rhydd ac yn ymateb yn effeithiol. Maent yn darparu sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar i'r plant er mwyn deall eu teimladau yn ogystal â darparu sesiynau symud corfforol dan do yn ystod tywydd garw.

Mae'r staff yn glir ynglŷn â gweithdrefnau diogelwch y lleoliad a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau. Mae polisi diogelu manwl ar waith, sy'n cyfeirio at y ddyletswydd atal. Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant. Mae'r staff yn llwyddo i dynnu sylw'r rhai sydd yn cam-ymddwyn mewn modd medrus fel arfer ac yn gweithredu polisi sy'n annog ymddygiad cadarnhaol. Maent yn gyfeillgar, yn ymatebol ac yn sylwgar i'r plant. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac yn dangos caredigrwydd. Maent yn annog y plant i fod yn garedig â'i gilydd, helpu i dacluso ac maent yn eistedd gyda nhw wrth iddynt gael eu byrbrydau i hybu eu sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff yn dathlu ac yn hyrwyddo'r defnydd o iaith aelwyd y plant yn effeithiol.

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n hynod effeithiol ar gyfer gofal ar ôl ysgol ac yn ymgorffori diddordebau a syniadau'r plant. Mae'r gweithgareddau a gynigir yn hyrwyddo chwilfrydedd a meddwl parhaus trwy ddefnyddio ffyrdd o ddysgu sy'n seiliedig ar chwarae a rhyngweithio cadarnhaol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod asesiadau risg addas ar waith. Yn ystod yr arolygiad, anfonodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiad risg ar gyfer casglu a danfon o'r ysgol a'r fynedfa i fyny'r grisiau. Gofynnir hefyd am ganiatâd ysgrifenedig rhieni ar gyfer casglu a danfon o'r ysgol. Yn ogystal â hyn, mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch dyddiol yn yr ystafelloedd.

Mae rotâu glanhau dyddiol yn dangos bod y lleoliad a'r offer yn cael eu glanhau'n aml er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae gweithwyr proffesiynol yn cynnal archwiliadau cynnal a chadw o'r adeilad a'r offer yn rheolaidd ac mae'r staff yn cynnal archwiliadau gweledol o eitemau trydanol bach cyn eu defnyddio i sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'r staff yn sicrhau mai dim ond mynediad awdurdodedig a gaiff ei ganiatáu i'r gwasanaeth ac yn cadw cofnod o unrhyw ymwelwyr.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac mae digon o adnoddau. Mae ystod dda iawn o deganau ac adnoddau ar gael ar gyfer chwarae yn ystod y clwb ar ôl ysgol. Mae'r amgylchedd yn olau, wedi'i awyru'n dda, ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel. Mae murluniau deniadol ym mhob ystafell chwarae yn ysgogi dychymyg a dysgu'r plant. Mae'r murluniau hefyd yn dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn dda fel ei fod yn darparu ystod dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer pob ystod oedran y gofelir amdani. Mae'r gosodiad yn galluogi plant i ddewis gweithgareddau ac adnoddau yn annibynnol. Mae'r ardal wedi'i rhannu'n briodol ac yn darparu adnoddau sy'n briodol i oedran pob plentyn. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig ystod deg o gyfleoedd chwarae i'r plant. Mae hyn yn cynnwys gemau pêl, cegin fwd a chyfleoedd i dyfu planhigion.

Mae'r adnoddau o ansawdd uchel. Ffefrir offer chwarae pren a naturiol. Mae adnoddau amlddiwylliannol yn annog plant i gael dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiwylliannau ac arferion y tu hwnt i'w profiadau bywyd eu hunain. Mae gan y plant fynediad at ddodrefn, offer, teganau ac adnoddau o ansawdd da sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, unedau storio ar uchder plentyn, bwrdd a chadeiriau maint plentyn a phegiau cotiau unigol ar gyfer eu heiddo.

Mae'r ardal i fyny'r grisiau yn darparu digon o le i'r staff gwrdd â rhieni, yn ôl yr angen, i gynnal sgyrsiau cyfrinachol ac i gadw cofnodion yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae arweinyddiaeth yn effeithiol ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn frwd dros ddarparu cyfleoedd cyffrous i blant ymlacio ar ôl diwrnod yn yr ysgol. Mae polisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth bwysig i rieni am sut mae'r lleoliad yn cael ei redeg. Diweddarwyd hwn yn ystod yr arolygiad i gynnwys newidiadau staff. Cafodd y cynllun gweithredol hefyd ei ddiweddaru'n ddiweddar yn ystod yr arolygiad.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn gweithdrefnau recriwtio addas. Gwelsom sampl o ffeiliau staff ac er bod yr holl wiriadau gofynnol ar waith, mewn rhai achosion nid ydynt yn cael eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, diweddarodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fanylion y staff ar borth AGC.

Mae'r bobl sydd â chyfrifoldeb am y lleoliad yn gweithredu prosesau hunanwerthuso yn weithredol. Maent yn ceisio awgrymiadau plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill sydd â diddordeb, ac yn eu gweithredu. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r adroddiad bob amser wedi'i deilwra i'r gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a'u bod yn mwynhau eu gwaith. Cânt gyfarfodydd goruchwylio rheolaidd sy'n rhoi amser iddynt fyfyrio ar eu cryfderau a thrafod unrhyw anghenion hyfforddi. Mae pob un o'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol cyfoes fel cymorth cyntaf ac yn cael cyfleoedd i fanteisio ar hyfforddiant ychwanegol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol. Mae digon o staff cymwysedig a phrofiadol ar gael i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu defnyddio'n dda i sicrhau bod cymarebau staffio yn cael eu bodloni a bod anghenion plant yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw lleoliad staff bob amser yn glir ar y gofrestr.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau da ag ystod o weithwyr proffesiynol perthnasol a chyda'r gymuned leol fel sefydliadau trydydd parti, ymarferydd ymwybyddiaeth ofalgar, swyddogion heddlu a'r ysgol a'r gymuned leol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd bartneriaethau da gyda'r rhieni ac maent yn gefnogol iawn iddynt. Maent yn rhannu gwybodaeth yn ddyddiol gyda'r rhieni ac yn cymryd amser i roi adborth llafar iddynt wrth gasglu a darparu cofnodion manwl trwy'r ap digidol. Mae'r rhieni yn hapus iawn gyda'r lleoliad a'r gofal a gaiff eu plant.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod lleoliad staff yn glir ar y cofrestrau
A2. Sicrhau bod holl elfennau'r adroddiad ansawdd gofal yn cael eu teilwra'n uniongyrchol i'r gwasanaeth
A3. Sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd bob amser ar waith cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth
A4. Diweddaru’r datganiad o ddiben mewn modd amserol

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |

| | | |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 03/05/2022